RPW Ar-Lein Online

Taliadau Gwledig Cymru
Rural Payments Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Canllaw i Gwsmeriaid ar sut i Agor eu Cyfrif RPW Ar-lein

Cynnwys: **Tudalen:**

Cyflwyniad… ……3

- Cyflwyniad i RPW Ar-lein 3
- Porth y Llywodraeth 3
- Mewngofnodi i RPW Ar-lein

Agor eich Cyfrif RPW ar-lein 4

- Y tro cyntaf y byddwch yn mewngofnodi 6

Tudalen Hafan RPW Ar-lein - Cwsmeriaid 8

Tudalen Hafan RPW ar-lein - Asiantwyr ac Undebau Ffermwyr 11

Mwy o Arweiniad a Help 14

Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru

©Hawlfraint y Goron 2018

Cyflwyniad

Cyflwyniad i RPW Ar-lein

Mae Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein yn ffordd gyflym a hwylus o gysylltu ag RPW.

Ar ôl ichi agor eich cyfrif RPW ar-lein, byddwch yn gallu gwneud y canlynol:

- llenwi ceisiadau a datgan diddordeb
- cael yr wybodaeth ddiweddaraf trwy neges destun neu e-bost
- gweld ble ydych chi arni gyda'ch holl hawliadau
- holi RPW ac ateb eu cwestiynau nhw i chi, gan gynnwys lanlwytho dogfennau
- diweddaru manylion eich busnes
- rhoi caniatâd i gynrychiolwyr eich undeb ffermio neu'ch Asiant wneud pethau ar eich rhan os dyna'ch dymuniad
- ychwanegu a rheoli eich CPH (rhifau daliad).

Porth y Llywodraeth

Mae Porth y Llywodraeth yn sicrhau bod RPW Ar-lein yn ddiogel ichi ei ddefnyddio. Pan fyddwch yn clicio ar ddolen RPW Ar-lein, byddwch yn mynd yn gyntaf i dudalen logio i mewn i Borth y Llywodraeth. Efallai bod gennych gyfrif Porth y Llywodraeth eisoes neu fel arall, bydd yn rhaid ichi greu un. Bydd yn rhaid ichi logio i mewn i Borth y Llywodraeth i gael mynd ar RPW ar-lein. Darllenwch y bennod berthnasol yng nghanllaw Porth y Llywodraeth ar wefan RPW Ar-lein www.llyw.cymru/rpwarlein os ydych am greu cyfrif Porth y Llywodraeth neu logio i mewn arno.

Mewngofnodi i RPW Ar-lein

Cliciwch www.llyw.cymru/rpwarlein i fynd i'r dudalen mewngofnodi (logio i mewn).

Ar dudalennau Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein Llywodraeth Cymru, fe welwch yr wybodaeth ddiweddaraf a chanllaw i ddefnyddwyr. I ddefnyddio RPW Ar-lein, mae'n bosibl y bydd angen ichi gael system weithredu neu borwr cryfach. Gofalwch eich bod yn bodloni'r amodau ar gyfer defnyddio RPW Ar-lein. I'w gweld, cliciwch ar Gofynion RPW Ar-lein ar ochr dde'r dudalen. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid - mae'r manylion cysylltu yn yr adran Mwy o Arweiniad a Help yn y canllaw hwn.

Mae dwy ffordd ichi fynd i'ch cyfrif:

- Mewngofnodi trwy wefan Llywodraeth Cymru, yn www.llyw.cymru/rpwarlein

- Mewngofnodi trwy ddolen wedi'i chadw (ar ôl mewngofnodi i dudalen RPW Ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru, rhowch nod tudalen arni neu ychwanegwch hi at eich ffefrynnau, gan ddibynnu pa borwr rhyngrwyd rydych yn ei ddefnyddio).

Agor eich Cyfrif RPW ar-lein

Bydd yn rhaid ichi agor eich cyfrif RPW Ar-lein cyn cael logio i mewn (mewngofnodi) iddo y tro cyntaf.
Ar ôl mewngofnodi i Borth y Llywodraeth, fe welwch sgrin ichi allu agor eich cyfrif.

Bydd angen y tair ffaith ganlynol arnoch wrth law ichi allu agor eich cyfrif RPW Ar-lein:

- Eich Cyfeirnod Cwsmer (CRN)
- Cod post eich cyfeiriad gohebu
- Cod Defnyddio RPW Ar-lein.

Bydd llythyr â'r wybodaeth hon arno wedi'i anfon i gyfeiriad gohebu'r CRN. Os ydych wedi'i golli, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid. Fe welwch y manylion cysylltu yn adran Mwy o Arweiniad a Help y canllaw hwn.

Wedi ichi glicio "Agor", byddwch yn gweld y sgrin isod sy'n gofyn ichi am y tair ffaith.

Cofiwch, os byddwch yn rhoi'r wybodaeth anghywir 5 gwaith, cewch eich anfon yn ôl i Borth y Llywodraeth a bydd yn rhaid ichi fewngofnodi eto a rhoi cynnig arall ar gofnodi'r tair ffaith yn gywir. Os ydych yn cael trafferth, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid - mae'r manylion cysylltu yn yr adran Mwy o Arweiniad a Help yn y canllaw hwn.

Y tro cyntaf y byddwch yn mewngofnodi

Bydd yna ddwy sgrin arall y byddwch yn eu gweld pan fyddwch yn mewngofnodi (logio i mewn) am y tro cyntaf.

1. Telerau ac Amodau

Byddwn yn gofyn ichi ddarllen a derbyn Telerau ac Amodau Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein. Cliciwch ar y ddolen i ddarllen y Telerau a'r Amodau. Rhaid ichi dicio'r blwch i gadarnhau'ch bod yn derbyn y Telerau a'r Amodau cyn cael bwrw ymlaen.

2. Dewisiadau Ar-lein

Y tro cyntaf y byddwch yn mewngofnodi, fe welwch hefyd y sgrin Dewisiadau Ar-lein.



Bydd RPW yn anfon e-bost neu neges destun atoch bob tro y caiff dogfen neu lythyr ei ychwanegu at eich cyfrif. Bydd yn rhaid ichi fewngofnodi i'ch cyfrif i'w gweld.

- Os byddwch yn dewis cael gwybod trwy **'e-bost'**, rhaid ichi roi a chadarnhau cyfeiriad e-bost.
- Os byddwch yn dewis cael gwybod trwy **'neges destun'**, rhaid ichi roi a chadarnhau rhif ffôn symudol.
- Os byddwch yn dewis **'y ddau'**, rhaid ichi roi ac yna gadarnhau rhif ffôn symudol a chyfeiriad e-bost.

Ar hyn o bryd, gallwch ddewis derbyn llythyron 'Ar-lein' yn unig trwy'ch Cyfrif RPW Ar-lein neu 'Papur ac Ar-lein' i dderbyn ambell lythyr trwy'r post yn ogystal â thrwy'ch Cyfrif RPW Ar-lein.

Wedi ichi nodi'ch dewis, cliciwch y botwm "Cadw Newidiadau"

Mae croeso ichi newid eich Dewisiadau Ar-lein unrhyw bryd. I gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut i newid eich manylion ar eich Cyfrif RPW Ar-lein, ewch i www.llyw.cymru/rpwarlein

Ar ôl safio'ch Dewisiadau Ar-lein, y dudalen nesaf welwch chi yw tudalen hafan y Cwsmer neu Asiant/Undeb Ffermwyr.

Tudalen Hafan RPW Ar-lein - Cwsmeriaid

Fel arfer, y dudalen hafan fydd y dudalen gyntaf welwch chi wrth fewngofnodi (logio i mewn).



Bar Dewislenni

Ar hyd y bar dewislenni gwyrdd ar dop y sgrin, fe welwch yr opsiynau canlynol:

Fy Fferm
Dewiswch yr opsiwn hwn i weld neu newid eich manylion cwsmer.
Bydd hynny'n cynnwys ychwanegu unigolion, newid manylion cysylltu ac ychwanegu buddiannau'ch busnes. Mae'ch Map, Map Rhyngweithiol a Rheoli fy Nhir hefyd ar gael trwy Fy Fferm.

Fy Hawliau
Dyma ble welwch chi fanylion eich hawliau a pha rai sydd ar gael a ddim ar gael ichi eu defnyddio i gael taliad.

Gwybodaeth Ariannol
Dyma ble mae'ch manylion bancio a manylion y taliadau sydd wedi'u gwneud. I newid eich manylion bancio, rhaid llenwi ffurflen manylion eich banc gan nad oes modd newid manylion eich banc ar-lein. I gael copi, ewch i www.llyw.cymru/rpwarlein neu holwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid; fe welwch ei manylion cysylltu yn adran Mwy o Arweiniad a Help y canllaw hwn.

Dogfennau
Bydd eich holl ddogfennau RPW yn cael eu cadw yma. Byddwch yn gallu chwilio am y rhai sydd eu hangen arnoch.

Ceisiadau a Hawliadau
Cliciwch ar yr opsiwn hwn i wneud cais neu hawliad newydd neu i weld beth sy'n digwydd i hawliad rydych wedi'i wneud eisoes.

Negeseuon
Dyma ble mae'r dogfennau a'r llythyrau y mae RPW wedi'u hanfon atoch chi yn cael eu cadw. Byddwch hefyd yn gallu ateb cwestiynau a lanlwytho gwybodaeth ategol o'r dudalen Negeseuon. Bydd y rhif wrth ochr dde'r teitl Negeseuon yn dangos faint o negeseuon sydd gennych heb eu darllen.

Contractau a Grantiau Bach
Dyma ble gwelwch chi restr o'ch contractau a'u statws, a lle gallwch Ddatgan Diddordeb neu weld Datganiadau sydd wedi'u gwneud eisoes. Byddwch hefyd yn gallu lanlwytho dogfennau o'r fan hon i gefnogi'ch hawliadau.

Fy CPH
Dyma'r lle i reoli gwybodaeth eich daliad (CPH) ac ychwanegu CPH newydd.

Fy Nghyfrif Ar-lein
Ar ochr dde'r dudalen, cliciwch ar yr opsiwn hwn i newid eich Dewisiadau Ar-lein neu ychwanegu neu newid unrhyw gysylltiadau ag asiantwyr, cynghorwyr a chynrychiolwyr undebau ffermwyr.

Dyma elfennau pwysig eraill ar dudalen hafan RPW Ar-lein:

Bar Gwybodaeth
Mae'r bar Gwybodaeth glas yn dangos y cyhoeddiadau a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Man Negeseuon
Ar ochr chwith y dudalen hafan, byddwn yn cadw'r ohebiaeth ddiweddaraf rhyngoch chi a'r RPW. Dim ond y negeseuon diweddaraf fydd yn cael eu dangos. I weld eich negeseuon i gyd, ewch i'r tab Negeseuon.

Dolenni Defnyddiol
Ar ochr dde'r dudalen hafan, mae rhestr o ddolenni defnyddiol.

Dechrau Ceisiadau a Hawliadau
Fe welwch ddolenni cyflym at rai o'ch ceisiadau a hawliadau ar waelod y dudalen hafan. I weld yr holl geisiadau, ewch i'r dudalen Ceisiadau a Hawliadau.

Cewch ragor o fanylion am yr holl elfennau hyn ar-lein yn www.llyw.cymru/rpwarlein.

Tudalen Hafan RPW Ar-lein - Asiantwyr ac Undebau Ffermwyr

Y dudalen gyntaf welwch chi ar RPW Ar-lein yw'r sgrin Dewiswch y Cwsmer Bydd y sgrin yn dangos yr holl gwsmeriaid rydych yn delio â nhw. I gael rhagor o wybodaeth am gwsmeriaid a sut i ofalu amdanyn nhw ar-lein, ewch i www.llyw.cymru/rpwarlein.



Cliciwch y botwm "Hafan Asiant" ac fe welwch y dudalen ganlynol:



Bar Dewislenni

Ar hyd y bar dewislenni gwyrdd ar dop y sgrin, fe welwch yr opsiynau canlynol:

Fy Manylion
Dewiswch yr opsiwn hwn i weld neu newid eich manylion.
Bydd hynny'n cynnwys newid eich manylion cysylltu a'ch manylion cyffredinol. Os ydych yn gwsmer dros dro, chewch chi ddim newid eich manylion. Byddwn yn rhoi

gwybod ichi wedi inni brosesu'ch ffurflen Cofrestru Cwsmer yn llawn, trwy'r dull cyfathrebu y byddwch wedi'i ddewis.

Dogfennau
Bydd eich holl ddogfennau diweddar RPW yn cael eu cadw yma. Byddwch yn gallu chwilio am y rhai sydd eu hangen arnoch.

Negeseuon
Dyma ble mae'r dogfennau a'r llythyrau y mae RPW wedi'u hanfon atoch chi yn cael eu cadw. Byddwch hefyd yn gallu ateb cwestiynau a lanlwytho gwybodaeth ategol arni. Bydd y rhif wrth ochr dde'r teitl Negeseuon yn dangos faint o negeseuon sydd gennych heb eu darllen.

Fy Nghyfrif Ar-lein
Ar ochr dde'r dudalen, dyma ble gallwch newid eich Dewisiadau Ar-lein a rheoli'ch cwsmeriaid.

Dyma elfennau pwysig eraill ar dudalen hafan RPW Ar-lein:

Bar Gwybodaeth
Mae'r bar Gwybodaeth glas yn dangos y cyhoeddiadau a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Man Negeseuon
Ar ochr chwith y dudalen hafan, byddwn yn cadw'r ohebiaeth ddiweddaraf rhyngoch chi a'r RPW. Dim ond y negeseuon diweddaraf fydd yn cael eu dangos. I weld eich negeseuon i gyd, ewch i'r tab Negeseuon.

Dolenni Defnyddiol
Ar ochr dde'r dudalen hafan, mae rhestr o ddolenni defnyddiol.

I gael mwy o help ar sut i ddefnyddio'r elfennau hyn, ewch i www.llyw.cymru/rpwarlein

Mwy o Arweiniad a Help

I gael mwy o help ac i weld fideos arddangos ar-lein, ewch i www.llyw.cymru/rpwarlein.

I siarad â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid, ffoniwch **0300 062 5004**. Ei horiau agor yw:

Llun - Iau 8.30am tan 5pm
Gwener 8.30am tan 4.30pm.

Gallwch anfon neges atyn nhw hefyd trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein.

Gall ein Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid siarad â chi hefyd am weithdai a'r cymorth un i un sydd ar gael yn ystod cyfnod y SAF ac ar adegau pwysig eraill.

Am ragor o wybodaeth am gynlluniau eraill sy'n cael eu rhedeg gan Daliadau Gwledig Cymru, ewch i: www.llyw.cymru/ffermio

Defnyddio a hyfforddiant mewn cyfrifiaduron
Mae'r wefan www.computercourses.wales yn rhestru'r cyfrifiaduron sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio yn ogystal â'r cyrsiau hyfforddi sydd ar gael ledled Cymru. Gallwch hefyd ffonio 0845 474 8282. Mae yna nifer fach o gyfrifiaduron ar gael hefyd yn rhai o swyddfeydd Llywodraeth Cymru.

Band eang
Mae band eang cyflym wrthi'n cael ei ddarparu ledled Cymru neu gallwch wneud cais am grant i gysylltu â band eang cyflym trwy ffyrdd eraill. Ewch i www.llyw.cymru/bandeang am ragor o wybodaeth neu ffoniwch 0300 025 8887.